Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylchoedd Chwarae Ysgol Ardwyn Cyf
# Ysgol Feithrin a Babanod Ardwyn
# Red Bank
# Y Trallwng
# SY21 7PW

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1:** **Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2:** **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3:** **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 21/12/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylchoedd Chwarae Ysgol Ardwyn Cyfyngedig wedi ei leoli yn Ysgol Feithrin a Babanod Ardwyn, y Trallwng, yn awdurdod lleol Powys. Er Medi 2016, Cymraeg yw iaith y lleoliad. Mae'r lleoliad yn agor am bum bore'r wythnos ac mae ganddo bedwar ymarferwr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn galluogi iddo gymryd hyd at 22 o blant ar unrhyw adeg benodol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Adeg yr arolygiad, roedd naw o blant yn mynychu, sy'n cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi rhai plant iau yn y lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae bwrdd gwirfoddol o ymddiriedolwyr yn rheoli'r lleoliad ac mae'n gwmni elusennol cyfyngedig. Dechreuodd y rheolwr o ddydd i ddydd ar ei swydd ym Medi 2009. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2015 ac arolygodd Estyn y lleoliad ym Mai 2013.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr brwdfrydig ac awyddus
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn poeni am deimladau plant eraill
- Caiff profiadau dysgu eu cynllunio'n effeithiol
- Mae addysgu effeithiol yn herio bron pob un o'r plant i wella'u gwaith
- Mae asesiadau'n symud plant ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithlon
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ar wella safonau plant yn ddyfal
- Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn fuddiol i'r plant
- Mae gofal dyfal a thyner ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol
- Mae ardaloedd ysgogol dan do ac yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gan y rheolwr gyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith y lleoliad
- Mae systemau arfarnu rheolaidd a thrylwyr yn bodoli sy'n ystyried barn pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad
- Mae ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol, ac mae hyfforddiant yn effeithiol
- Mae defnydd pwrpasol o wasanaethau cymorth yn cefnogi plant, rheolwyr ac ymarferwyr
- Mae perthnasoedd cryf gyda rhieni a'r ysgol yn cynnal parhad ac yn atgyfnerthu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn dda
- Mae adnoddau ysgogol ar gael i bob plentyn
- Mae defnydd synhwyrol o gyllid yn sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth, dan do ac yn yr ardaloedd awyr agored
- Mae cymorth a her weithredol gan fwrdd yr ymddiriedolwyr yn cynnal darpariaeth effeithiol, rheoleiddio ariannol cadarn ac arferion arwain pwrpasol

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd plant o’r Gymraeg

A2 Sicrhau bod cynllunio gweithgareddau ysgrifennu cynnar yn herio’r plant mwy abl i berfformio ar eu gorau

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Daeth y lleoliad yn lleoliad cyfrwng Cymraeg ym Medi 2016; felly, mae safon medrau Cymraeg bron pob un o'r plant yn isel pan fyddant yn dechrau. Fodd bynnag, mewn cyfnod byr, mae llawer o blant yn dangos dealltwriaeth sylfaenol a chadarn o'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg, ac mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio geiriau Cymraeg ac ymadroddion Cymraeg achlysurol heb anogaeth gan oedolyn. Mae hyn yn dangos cynnydd addas. Mae dealltwriaeth gynnar y plant a'u defnydd o iaith yn datblygu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu, yn enwedig eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Maent yn siarad am y modd y maent yn teimlo amdanyn nhw eu hunain a phobl eraill yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau dŵr sy'n cynnwys twmffedi, tiwbiau a chynwysyddion ac wrth reidio beiciau o gwmpas llwybrau wedi eu marcio yn yr ardal awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn cynnal trafodaethau bywiog gydag oedolion a'i gilydd wrth drefnu dinosoriaid yn ardal y byd bach ac wrth blannu bylbiau hiasinth mewn potiau fel anrhegion Nadolig i'w rhieni. Maent hefyd yn cydweithredu'n dda yn ystod gweithgareddau grŵp wrth benderfynu pa offerynnau cerdd i'w canu a'r offer sydd eu hangen i rolio toes a'i dorri.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod pobl eraill yn eu deall wrth ymateb i oedolion yn holi yn Gymraeg yn ystod tasgau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn gweithredu arnynt yn brydlon, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol am yr iaith. Mae hyn yn amlwg iawn pan fyddant yn coginio yn y gegin fwd a phan fyddant yn trafod cynhwysedd wrth lenwi a gwagio bwcedi o dywod.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Maent yn deall diben y darluniau ac yn trafod ymddangosiad cymeriadau penodol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdrin â'r llyfrau yn yr ardaloedd darllen dan do ac yn yr awyr agored fel darllenwyr cynnar hyderus. Maent yn awyddus i rannu'r llyfrau â'u rhieni trwy gynllun y llyfr cyswllt cartref, y mae'r lleoliad yn ei fonitro yn effeithiol.

Mae lleiafrif o blant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn bwrpasol mewn gweithgareddau chwarae anffurfiol a ffocysedig, wrth drefnu cerbydau yn y mannau parcio awyr agored a phenderfynu pa ddeunyddiau y mae angen eu llwytho i'r cert ailgylchu cludadwy. Wrth chwarae rôl yn yr ardal adeiladu, maent yn nodi p'un a yw estyll o bren yn 'hir' neu'n 'fyr' a ph'un a yw offer, fel cymysgwr sment, yn debygol o fod yn 'drwm' neu'n 'ysgafn'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi â chreu marciau yn effeithiol. Mae hyn yn nodwedd amlwg yn y lleoliad ac mae plant yn mwynhau profiadau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Mae enghreifftiau'n cynnwys paentio ar ddalenni papur bach gan ddefnyddio brwshys paent, sgriblo a chylchu â sialc ar fyrddau mawr yn yr awyr agored a helpu oedolion i ffurfio llythrennau mawr ar lawr yr iard.

Ychydig iawn o blant sy'n dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau eithaf adnabyddadwy wrth drin a thrafod pensiliau a chreonau. Mae mwyafrif y plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir ac mae rhai plant yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill yn ystod cofrestru ac ar ddechrau pob sesiwn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau bob dydd. Mae llawer o blant yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau i bump yn annibynnol ac mae rhai ohonynt yn cyfrif i 10 a thu hwnt yn gywir, pan fyddant yn eistedd mewn cylch ar ddechrau pob sesiwn. Mae rhai plant yn dangos dealltwriaeth gywir o sut i fondio rhifau i bump trwy drefnu gwrthrychau a theganau yn ardal y byd bach. Mae llawer o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Er enghraifft, wrth iddynt arllwys dŵr sebonllyd yn eu tro i mewn i dwmffat, maent yn cyfrif faint o gynwysyddion sy'n cael eu defnyddio ac yn mesur bwcedi 'llawn', 'hanner llawn' a 'gwag' o dywod yn ystod tasgau ffocws yn yr awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall yn glir y gwahaniaethau mewn taldra wrth ddringo'r ysgol rifau sy'n arwain at y llithren. Maent yn esbonio'n gywir a yw gwrthrychau mwy yn 'dalach' neu'n 'fyrrach' na nhw a phan fyddant yn sefyll 'uwchlaw' neu 'islaw' gwahanol wrthrychau a strwythurau.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth gydweithredu â'i gilydd mewn chwarae digymell, er enghraifft wrth gymharu hyd, taldra, pwysau neu gynhwysedd gwahanol wrthrychau. Maent hefyd yn defnyddio rhifau'n dda mewn gweithgareddau ymarferol wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn fel rhai gwastad neu grwn, ac wrth gyfrif yn eu trefn faint o hoelion sydd wedi cael eu hoelio mewn darn o bren gan ddefnyddio morthwyl. Mae bron pob un o'r plant yn trefnu gwahanol fathau o wrthrychau mewn grwpiau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar gerddoriaeth gyda mwynhad ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg. Maent yn canu offerynnau gyda brwdfrydedd mawr yn ystod gweithgareddau cerddorfaol ac yn canu'n bersain, gan ddeall yn glir bod ymadroddion cerddorol penodol yn uwch neu'n fwy meddal na'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau meddwl da, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda phlant eraill yn ddeallus wrth iddynt wneud siapiau llaw â phaentiau lliwiau gwahanol, yn defnyddio papur tywod i siapio cylchau allweddi pren ac yn cymryd rhan mewn ioga i greu siapiau anifeiliaid.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio camerâu, teganau electronig a chyfrifiaduron llechen ac mewn gweithgareddau bob dydd, er enghraifft wrth ddefnyddio ffônau a thiliau yn eu hardaloedd chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio meddalwedd addysgol yn Gymraeg yn dda i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar a dysgu'r iaith.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r plant, mewn perthynas â’u hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant aros yn iach. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ystod y broses o baratoi a bwyta byrbrydau, pan fyddant yn trafod gwahanol flasau ac ansoddau ffrwythau ac yn esbonio bod yfed dŵr yn dda i’w hiechyd.

Yn dilyn gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o’r plant yn golchi eu dwylo’n drylwyr, heb ormod o anogaeth gan oedolion, cyn bwyta eu byrbrydau ac yfed llaeth neu ddŵr. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn fod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Maent yn esbonio’n synhwyrol bod ymarfer corff yn eich cadw’n heini a bod rhedeg neu reidio beic yn cyflymu curiad y galon. Mae bron pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch at oedolion ac at ei gilydd. Mae bron pob un o’r plant yn gwrando’n ofalus ar oedolion, er enghraifft wrth ffurfio llinell ger y cart ailgylchu ac wrth wisgo oferôls ac esgidiau glaw ar gyfer gweithgareddau y tu allan.

Mae bron pob un o’r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu. Maent yn mwynhau’r gweithgareddau yn y meysydd dysgu ac yn rhannu a gweithio’n synhwyrol â phlant eraill. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd fel perfformio ar lwyfan yn yr ardal berfformio yn yr awyr agored. Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fydd llawer ohonynt yn esbonio’n ddeallus pam maent yn mwynhau eu cyfnod yn y lleoliad ac wrth iddynt nodi’n feddylgar y meysydd dysgu sy’n cynnwys eu hoff weithgareddau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt y dewis i fynegi barn, er enghraifft wrth benderfynu aros ar dasgau penodol neu ddyfalbarhau â nhw. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau cadarnhaol o ymgysylltu yn y rhan fwyaf o dasgau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r rheolwr a’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cynhwysfawr, sy’n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r profiadau dysgu’n targedu anghenion a diddordebau plant yn bwrpasol ac yn rhoi cyfleoedd cadarnhaol iddynt ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Mae’r ymarferwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i gyflwyno gweithgareddau hyblyg a chyffrous, sy’n ysgogi a chymell plant i ddysgu trwy weithgareddau ymarferol a chreadigol.

Mae cynllunio wythnosol y rheolwr yn canolbwyntio’n effeithiol ar wella medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae’n canolbwyntio’n synhwyrol ar ddatblygu medrau corfforol a syniadau creadigol plant hefyd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn galluogi plant i fesur dŵr i mewn i dwmffedi a phibelli yn annibynnol, yn eu hannog i reidio beiciau yn egnïol ar lwybrau sy’n gweu trwy wahanol ardaloedd dysgu ac o’u hamgylch ac yn eu hannog i ddringo offer anturus a balansio ar gerrig camu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu yn drylwyr. Maent yn trafod asesiadau plant unigol mewn cyfarfodydd yn y bore, ac yn trefnu gweithgareddau'r thema ar sail hyn. Mae ymarferwyr yn ystyried diddordebau unigol y plant sy'n deillio o asesiadau dyddiol i gyfoethogi gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ysgogol y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid yw cynllunio gweithgareddau ysgrifennu cynnar ar gyfer y plant mwy abl yn eu herio'n ddigonol i ddatblygu medrau gwell wrth ffurfio llythrennau a rhifau.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac mae ymarferwyr yn herio'r rhan fwyaf o blant i berfformio o'u gorau yn gyson. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd ysgogol i blant chwarae rôl mewn ardaloedd adeiladu ac mewn pebyll bambŵ, i amcangyfrif faint o fwd fyddai'n llenwi sosban ac arbrofi â phaentiau wrth greu lluniau. Mae gweithgareddau o'r natur hon yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Mae'r profiadau dysgu a ddarperir yn ysgogol gan eu bod yn cynnig parhad i ddysgu'r plant yn synhwyrol. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys heriau i ddatrys problemau â phibelli dŵr ac yn canu offerynnau yn synhwyrol i gadw curiad mewn cerddorfa.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dangos enghreifftiau o'r iaith yn effeithiol ac yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau ysgogol gyda grwpiau penodol o blant sy'n cael eu harwain gan weithwyr allweddol. Mae hyn yn bwrpasol, gan fod gweithwyr allweddol yn herio a holi plant yn dda wrth ymateb i ystod eang o weithgareddau yn yr ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant a Dydd Santes Dwynwen, darllen straeon gwerin o Gymru gyda'i gilydd, gwneud cawl o gynnyrch gardd a phobi teisennau cri a bara.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio cyfrifiadur, camerâu, tiliau, teganau electronig a chyfrifiaduron llechen mewn ardaloedd chwarae rôl. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithiol, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar a dysgu'r iaith gan ddefnyddio technoleg weledol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau brys, mamau a babanod, y swyddog diogelwch ar y ffordd a hylenyddion deintyddol yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r llyfrgell, yr amgueddfa leol, siop anifeiliaid anwes a pharciau lleol i fwydo'r hwyaid i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'u cymuned leol yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu Diwali, Hanukkah a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd bob blwyddyn. Mae'r profiadau sydd wedi eu cynllunio'n dda yn datblygu dealltwriaeth well o'r byd ar gyfer y plant.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant. Maent yn wybodus ynghylch gofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn cydweithio'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes a brwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ac maent yn parhau â'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad llwyddiannus y plant ym mhob gweithgaredd.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio plant yn gyson ym mhob tasg ffocws. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol wrth i blant chwarae, gan eu hysgogi a'u cymell i berfformio ar eu gorau. Mae'r rheolwr a'r ymarferwyr yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'r rheiny sy'n cael eu harwain gan oedolion. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae, yn enwedig yn yr ardal awyr agored.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol. Mae hyn yn cynnwys symud yn rhwydd rhwng tu mewn a thu allan yr adeilad i brofi'r meysydd dysgu mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn annog cydweithio gydag eraill mewn gwahanol fathau o heriau sy'n cynnwys dŵr a thywod ac mewn tasgau bywiog a chorfforol. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae hyn yn amlwg wrth drafod lleoliad cywir bwlb wrth ei blannu mewn pridd a sut i daenu jam yn gyfartal ar roliau yn ystod amser byrbryd.

Mae system gweithwyr allweddol y lleoliad yn effeithiol. Yn benodol, mae'n targedu geirfa a phatrymau iaith Cymraeg yn gyson trwy eu hatgyfnerthu'n rheolaidd trwy gydol gweithgareddau'r sesiwn. O ganlyniad, mae safonau plant mewn Cymraeg yn dangos cynnydd cyflym mewn cyfnod byr.

Mae pob ymarferwr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd ac yn gyson ac yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain yn dda. Wedyn, maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau bob dydd ar daflenni cofnodi effeithiol ac yn llyfrau cyswllt y plant. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau ac mae'n targedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn effeithlon. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddyfal. Mae'r holl dystiolaeth yn cyd-fynd yn gywir â deilliannau plant unigol wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant ar ddiwedd y sesiwn. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn cyflwyno llyfryn manwl o ffotograffau, gwaith plant gydag anodiadau ac adroddiadau ar gynnydd y plentyn i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad a'u lles cyffredinol, sy'n cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn gweithredu gweithdrefnau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau yn cyfrannu at ddiet synhwyrol.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp i ystyried teimladau ei gilydd. O ganlyniad, maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch ac yn atgyfnerthu eu pwysigrwydd yn bwrpasol bob dydd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr bob dydd i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn creu amgylchedd tawel, pan fydd plant yn eistedd i wrando ar oedolion a dweud diolch am eu bwyd. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro yn gwrtais tra byddant yn bwyta byrbrydau ac yn gweini llaeth a dŵr o gwmpas y byrddau bwyta. Caiff helpwr dynodedig y dydd gyfle i gynorthwyo ar rota â rhannu platiau, cwpanau a chyllyll a ffyrc, sy'n helpu i hyrwyddo cyfrifoldebau annibynnol ar gyfer pob plentyn yn ei dro.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, plastigau a bwyd. Maent hefyd yn compostio crafion a ffrwythau heb eu bwyta yn y biniau compostio yn yr ardal awyr agored. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n cael gwared ar unrhyw fath o aflonyddwch neu weithredoedd gormesol. Mae'r plant yn hapus a diogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth heb bryderu.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn gofalu'n dda am y plant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn gywir pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn nodi mannau cychwyn yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant â chymorth ychwanegol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu eu hanghenion. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn deall y gweithdrefnau angenrheidiol i gynorthwyo plant ac mae'n eu defnyddio yn effeithlon.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn gyfle cyfartal i elwa ar bob un o'r meysydd dysgu a'r adnoddau. Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth drylwyr am bob un o'r plant a chydnabyddir eu hunigoliaeth yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn herio plant bob dydd mewn modd tyner, gofalus a sensitif.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol trwy ei weithgareddau dyddiol a'r ymagwedd a gaiff ei mabwysiadu gan yr ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r o'r byd bob blwyddyn, fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, Hanukkah a Diwali.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei adnoddau'n dda i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Mae'r adnoddau buddiol yn hygyrch i bob un o'r plant, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Er enghraifft, mae hyn yn arbennig o amlwg wrth ganiatàu i blant chwarae rôl mewn gwahanol gyd-destunau a thrwy ymchwilio i wahanol fathau o anifeiliaid ac adar yn yr ardaloedd bywyd gwyllt amrywiol o amgylch yr ardaloedd awyr agored. Mae'r gweithgareddau parhaus, y tasgau â ffocws a'r cyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu yn rhannu'r adnoddau yn effeithiol. Caiff y defnydd ohonynt gan y plant effaith gadarnhaol ar eu dysgu, yn enwedig wrth greu marciau ar fyrddau sialc mawr ac wrth ddidoli cerbydau i gyfateb i'r rhifau yn yr ardal barcio.

Mae'r ardal yn yr awyr agored yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu diddorol, offer dringo a heriau ysgogol yn yr ardal adeiladu a'r gegin fwd. Mae'r lleoliad yn defnyddio ei ardaloedd awyr agored ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol hefyd, fel hela am bryfed ac archwilio ymlusgiaid. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r gymuned leol yn synhwyrol hefyd i wella dysgu'r plant.

Mae ansawdd yr adeilad yn addas; caiff ei gynnal yn dda ac mae'n ddiogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r rheolwr yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau yn llwyddiannus. Mae'n rheoli'r cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol ac yn sicrhau bod gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bron pob un o'r plant. Mae'r amcanion strategol, y cynlluniau a'r polisïau yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth effeithiol, yn targedu anghenion plant yn dda ac yn hyrwyddo cyflawniadau plant yn gyson. Mae'r rheolwr yn arwain tîm cadarn o ymarferwyr ymroddgar yn synhwyrol ac yn rhoi cyfeiriad strategol cadarnhaol i arferion bob dydd a thymor hir y lleoliad.

Mae'r arferion arwain gofalgar yn cymell yr ymarferwyr tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r rheolwr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu'r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored, addurno'r lleoliad gan ddefnyddio cymorth gwirfoddolwyr a defnyddio ffrydiau cyllid niferus a chodi arian i gefnogi cymarebau staffio a gwella ansawdd yr adnoddau.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys bwrdd cefnogol yr ymddiriedolwyr, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau yn llawn ac yn gweithio fel tîm wedi ei gymell, trwy arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd. Mae'r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr. Mae'n diffinio gwahanol

rolau cyfrifoldeb yn dda i hyrwyddo llwyddiannau o fewn y lleoliad. Caiff ymarferwyr hyfforddiant perthnasol ac addysgiadol ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac fe gaiff wybodaeth am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd yn rheolaidd gan y rheolwr. Mae'r ymddiriedolwyr yn darparu cymorth effeithiol a rheoleiddio ariannol cadarn. Maent yn herio'r lleoliad yn gadarn i gynnal arferion da a datblygu ymhellach y meysydd sydd angen gwelliannau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r rheolwr a'i chydweithwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a darpariaeth. Mae'r cydweithio effeithiol a'r wybodaeth a gesglir bob dydd, ynghyd â chyfarfodydd staff a phecyn canllawiau arfarnu'r awdurdod lleol, yn cyfrannu at yr arfer lwyddiannus hon.

Mae'r hunanarfarniad yn ystyried safbwyntiau'r ymarferwyr dynodedig, y rhieni a'r gofalwyr, yr awdurdod lleol, Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru a Mudiad Meithrin. Mae'r holl wybodaeth hon yn fuddiol i'r lleoliad er mwyn cael dealltwriaeth fras o'i ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu sy'n deillio o'r prosesau hyn yn nodi cryfderau'r lleoliad yn dda. Mae'n nodi'r meysydd datblygu a'r rhesymau y tu ôl iddynt yn fanwl, gydag eglurder a gonestrwydd. Mae hyn yn cynnwys gwella defnydd y plant o'r Gymraeg, sy'n faes i'w ddatblygu o'r arolygiad blaenorol.

Mae'r rheolwr yn cymryd camau priodol i gynnal arferion effeithiol ac mae'n rhoi newid ar waith trwy gynlluniau gweithredu effeithlon. Mae'r rheolwr a'r bwrdd ymddiriedolwyr yn deall y gyllideb yn glir ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau a nodwyd ar gyfer gwella. Mae'r rheolwyr yn gwella'r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau, gan gynnwys proffil y Cyfnod Sylfaen a system gynllunio newydd. Cânt gyngor gwerthfawr gan bobl eraill i gefnogi hyn. Mae hyn yn cynnwys neilltuo gweithwyr allweddol i grwpiau penodol o blant yn ystod y sesiynau i gofnodi eu datblygiadau, sy'n effeithio ar fedrau plant yn bwrpasol.

Mae'r rheolwr, yr ymarferwyr a'r ymddiriedolwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod iawn i dderbyn syniadau newydd, a awrgymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, Mudiad Meithrin a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru. Er enghraifft, mae'r cyngor ar sut i wella cynllunio wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y profiadau addysgu a dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i wella darpariaeth, safonau a lles plant. Mae effaith y partneriaethau strategol yn effeithiol, yn enwedig y cysylltiad cryf iawn â'r ysgol sy'n rhannu'r adeilad. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau llwyddiannus â staff yr ysgol. Mae athrawes y dosbarth meithrin yn ymweld â'r lleoliad ac mae'r plant yn ymweld â'r dosbarth meithrin. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio plant yn eithriadol o dda. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn effeithiol a buddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino â'r ysgol.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n synhwyrol ag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn mynd ati i gefnogi dogfennau hyfforddiant a rheolaeth yn bwrpasol.

Mae cysylltiadau'r lleoliad â'r gymuned yn cefnogi dysgu'r plant yn dda. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau codi arian sy'n cynnwys nosweithiau bingo bob hanner tymor a diwrnodau hwyl i'r plant. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n cyfrannu'n bwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cynorthwyo'r lleoliad â hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, cyngor ar godi a chario, cymorth busnes, datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant mewn amddiffyn plant.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog hefyd i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd. Mae'r lleoliad yn gwrando ar eu syniadau ac yn rhoi newidiadau ar waith yn synhwyrol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r rheolwr yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad gan ymarferwyr arweiniol yn ddeallus ac yn dyrannu adnoddau yn effeithiol. Mae'r rheolwr a'r bwrdd ymddiriedolwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol i fodloni anghenion y plant.

Mae systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac mae paratoi profiadau dysgu diddorol yn arwain at arferion addysgu cadarn. Maent hefyd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu gref yn bodoli, sydd â diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi dysgu. Mae hyn yn cynnwys newid cynllun yr ystafell yn rheolaidd i gefnogi gwahanol themâu a defnyddio gwrthrychau bob dydd yn yr ardaloedd cerddoriaeth ac adeiladu yn yr awyr agored i ysgogi'r plant ac ennyn eu diddordeb.

Mae gan y rheolwr a'r bwrdd ymddiriedolwyr ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn amserlenni a chyfrifoldebau yn synhwyrol. Mae hyn yn creu gwelliannau pwrpasol, rheolaidd a chyson trwy drafodaethau buddiol a chynlluniau gwella sydd wedi eu cyllido'n dda. Ar hyn o bryd, maent yn bwriadu gwella'r ddarpariaeth ymhellach yn yr ardal awyr agored. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnyddio cyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a safonau a lles y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian o ganlyniad i'r ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |